



Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent Cyf

Cofnod Amgylchedd Hanesyddol

Polisi Gwasanaethau Gwybodaeth

Fersiwn: 6

Dyddiad: Ionawr 2017

Disgwyl Adolygiad: Ionawr 2019

Disgrifiad: Mae'r ddogfen hon yn gosod allan polisi'r CAH ar gyfer gwasanaethu sylfaen y defnyddwyr sefydledig ac ar gyfer datblygu ei chynulleidfa.

Ffynhonnell: Mae'r ddogfen *Polisi Gwasanaethau Gwybodaeth CAH GGAT* wedi'i hysgrifennu ar ran Ymddiriedolaeth Elusennol CAH GGAT. Mae'r ddogfen hon wedi'i seilio ar wybodaeth o *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol Rhanbarthol Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru: Polisi Mynediad ac Adennill Costau (2017)*, *Ffioedd Adennill Costau CAH GGAT (2017)* ac mae'n dilyn argymhellion o *Informing the Future of the Past: Guidelines for Historic Environment Records* (ail argraffiad, 2015) ac mae'n cynnwys y wybodaeth honno.

TABL O'R CYNNWYS

1.	Y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol.....	3
1.1.	Beth yw Cofnod Amgylchedd Hanesyddol?	3
1.2.	Beth yw pwrpas Cofnod Amgylchedd Hanesyddol?.....	3
1.3.	Pa fath o wybodaeth sydd ar gael?.....	4
1.4.	Pwy sydd â Mynediad at Gofnod?.....	5
1.5.	Sut i Gael Mynediad at Gofnod	6
2.	Safonau a Chyfleusterau'r Gwasanaeth	7
2.1.	Ymrwymiad i'r Defnyddiwr	7
2.2.	Oriau Agor a Chysylltu.....	7
2.3.	Mewngofnodi.....	7
2.4.	Cyfleusterau Defnyddwyr.....	8
2.5.	Hawlfraint.....	8
2.6.	HEIRNET.....	
3.	Polisi Mynediad a Chodi Tâl.....	8
4.	Gwaith Ymchwilio i Broffil Defnyddwyr a Boddhad â'r Gwasanaeth.....	9
4.1.	Pwy yw'r prif grwpiau sy'n defnyddio CAH?.....	10
4.2.	Pa fath o wybodaeth a gofnodir yn nata-bas Ymholiadau Her?.....	10
4.3.	Sut y ceir adborth gan amryfal ddefnyddwyr CAH?.....	10
4.4.	Sut caiff cwynion am wasanaeth CAH eu cofrestru?.....	11



Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent Cyf

Cofnod Amgylchedd Hanesyddol

Polisi Gwasanaethau Gwybodaeth

1. Y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol

1.1. Beth yw Cofnod Amgylchedd Hanesyddol?

Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Morgannwg-Gwent (CAH) yw'r brif ffynhonnell wybodaeth am bob agwedd o'r amgylchedd hanesyddol yn ne-ddwyrain Cymru, ac a gedwir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent. Ceidw'r cofnod wybodaeth am dros 29,000 o safleoedd archaeolegol a 5,000 o ddiwyddiadau mewn 12 ardal awdurdod lleol - Blaenau Gwent, Pen-y-bont, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Glyn-nedd Port Talbot, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Torfaen a Bro Morgannwg. Y CAH yw'r brif ffynhonnell wybodaeth am bob agwedd o amgylchedd hanesyddol Cymru ac mae'n erfyn ar gyfer cofnodi proses barhaus o'i waith dehongli, cadwraeth a rheoli. Mae Rheolwr y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn cynnal system y data-bas; ar hyn o bryd mae'n rhedeg mewn rhaglen ffynhonnell agored bwrpasol a ddatblygwyd yn *PHP* a *MySQL*, y mae modd cael ati trwy borwr gwe â system wybodaeth ddaearyddol ddolennog. Yn ychwanegol at y cofnodion CAH digidol, mae system wybodaeth bapur fawr, yn cynnwys mapio hanesyddol, ffotograffau a dynnwyd o'r awyr, ffotograffau a dynnwyd o'r ddaear, cyfnodolion, erthyglau ac adroddiadau.

YN yr CAH hefyd mae gwybodaeth a ddarperir ac a gedwir gan gyrff eraill megis Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac awdurdodau lleol fel sy'n ofynnol gan Adran 35 Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

Yn 2010 lanswyd gwasanaeth cyflawni cyhoeddus ar gyfer *Archwilio*, gwybodaeth CAH Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru. Rhydd *Archwilio* fynediad ar lein at y wybodaeth graidd hon am amgylchedd hanesyddol Cymru ac ategir hyn gan ragor o ddeunydd a gedwir gan bedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru.

1.2. Beth yw pwrpas Cofnod Amgylchedd Hanesyddol?

Datblygodd y syniad y tu ôl i Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol yn y 1970au fel rhan o'r ymateb i lefelau cynyddol o ddatblygu. Golyga lefelau uwch o ddatblygu y bu mwy o ddifrodi asedau hanesyddol ym Mhrydain. Gwelwyd ei bod yn flaenoriaeth gwneud i gasgliadau o gofnodion restru nodweddion o arwyddocâd archaeolegol a hanesyddol y gallai datblygu gael effaith arnynt, a hyn fel ffordd o reoli gwaith ailddatblygu mewn llawer o drefi a dinasoedd. Y rhagdybiaeth oedd, ac mae'n parhau hyd heddiw, yw na fydd modd gwneud unrhyw ymdrech i achub na chofnodi safle penodol os nad oes neb yn gwybod bod safle arwyddocaol yn bodoli ac, fel y cyfryw, caiff ei golli'n systemataidd.

Nid ffosileiddio ein pentrefi, ein trefi a'n dinasoedd yw bwriad archaeolegwyr, swyddogion cynllunio a rheolwyr treftadaeth. Yn syml, yr hyn y mae bodolaeth Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yn ei olygu yw bod modd rheoli newid er mwyn

gwasanaethu orau anghenion yr amgylchedd hanesyddol ei hun a diogelu'r adnodd archaeolegol yn y ffordd fwyaf priodol.

Mae'r CAH yn rhan hanfodol o'r broses ddatblygu a rheoli treftadaeth yn gyffredinol gan ei fod yn cynnal yr holl gyngor a roddir a'r argymhellion a wneir ynghylch rheoli'r adnodd archaeolegol. Bydd contractwyr archaeolegol sy'n gwneud gwaith ymchwil i ddatblygiad yn edrych ar yr CAH i bennu effaith y gwaith arfaethedig ac yn defnyddio hwn i wneud argymhellion. Yna bydd y swyddogion cynllunio'n gallu defnyddio gwaith ymchwil CAH a'r argymhellion yn sgil hynny i benderfynu sut i gynghori cynllunwyr a datblygwyr ynghylch y ffordd orau i weithredu yng nghyswllt y datblygiad hwnnw. Efallai y gwelir y bydd angen gwneud rhyw fath o waith archaeolegol fel rhan o'r datblygiad. Bydd canlyniadau'r gwaith ymchwil cychwynnol a ddefnyddiodd CAH fel sylfaen a'r rhaglen waith yn sgil hynny yna'n cael eu bwydo'n ôl i'r CAH i lywio gwaith ymchwil arall.

Mae archaeolegwyr curadurol neu reolwyr treftadaeth yn defnyddio'r wybodaeth yn y CAH yn yr un ffordd. Bydd y wybodaeth a gedwir yn y cofnod yn pennu'r cyngor a roddir ar gyfer ystod o brosiectau yn cynnwys cynlluniau rheoli tirluniau a chynlluniau datblygu unedol awdurdodau lleol. Caiff yr ardaloedd sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer eu rheoli neu eu datblygu eu hasesu o ran yr arwyddocâd hanesyddol ac archaeolegol (sy'n cynnwys cymeriad y tirlun), a gaiff ei bennu gan y safleoedd, henebion, adeiladau, arteffactau a thirluniau a gofnodir yn y CAH.

Nid erfyn ar gyfer archaeolegwyr proffesiynol yn unig yw'r CAH. Mae hefyd yn erfyn ymchwilio gwerthfawr i unrhyw un sydd â diddordeb yn y tirlun lleol. Gall CAH Ymddriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent ymdrin ag ymholiadau ynghylch gwybodaeth a gofnodir yn y CAH mewn unrhyw ardal o hen siroedd Morgannwg a Gwent, p'run a yw ymholiad yn canolbwyntio ar fath neu gyfnod penodol o ran safle neu p'run a yw'n canolbwyntio ar ardal ddaearyddol benodol.

1.3. Pa fath o wybodaeth sydd ar gael?

Yn y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol Rhanbarthol mae gwybodaeth am ystod eang o safleoedd archaeolegol, henebion ac arteffactau hysbys o gyfnodau'n ymestyn o'r cyfnod Palaeolithig i'r ugeinfed ganrif, yn ogystal â digwyddiadau archaeolegol ac mae'n cynnwys gwybodaeth am bob agwedd o weithgaredd dynol yn y tirlun o'r cyfnod cynhanes cynnar i'r ugeinfed ganrif heb ymrwymiad. Ar hyn o bryd mae yn nata-bas y CAH dros 30,000 o gofnodion yn ymestyn dros y cyfan o dde-dwyrain Cymru. Cedwir gwybodaeth mewn amryfal ffurfiau ac maent ar gael i droi atynt. Ymhlith y rhain mae:

- Gwybodaeth map a ddaw o fapiau papur AO, mapio hanesyddol a System Gwybodaeth Ddaearyddol y CAH.
- Llyfrgell gyfeirio CAH o lyfrau a chyfnodolion.
- Archif adroddiadau ac ynddo dros 3,000 o adroddiadau archaeolegol a threftadaeth yn ardal y GGAT.
- Mae casgliadau o Ffotograffau a Dynnir o'r Awyr (sydd heb eu catalogio hyd yn hyn): yn cynnwys lluniau lletraws o leoliadau ledled de Cymru, yn ymestyn o hwyr yn y 1970au i flynyddoedd cynnar 2000. At hyn, mae archif ffotograffig wrthi'n cael ei ddioglo a'i gatalogio.

- Mae rhagor o ffeiliau gwybodaeth a chofnodion papur yn cynnwys ystod helaeth o ddeunydd unigryw yn cynnwys gohebiaeth, cynlluniau brasluniau, mapiau a hanes safleoedd sy'n ategu'r cofnod digidol.
- Data oddi wrth ddeiliaid gwybodaeth am Amgylchedd Hanesyddol. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn bodoli rhwng Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a sefydliadau eraill sy'n bartneriaid – pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru, Cadw ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru er mwyn cyfnewid data'n rheolaidd a'i gwneud yn haws i'r cyhoedd gael mynediad at wybodaeth archaeolegol ar draws Cymru. Mae data gan awdurdodau lleol a'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn Adran 35 Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn cynnwys yn benodol:
 - Adeiladau Rhestredig
 - Henebion Rhestredig
 - Ardaloedd Cadwraeth
 - Parciau a Gerddi Cofrestredig
 - Tirluniau Hanesyddol
 - Safleoedd Gwrthdaro
 - Safleoedd Treftadaeth y Byd
 - Enwau Lleoedd Hanesyddol

1.4. Pwy sydd â Mynediad at y Cofnod?

Gall *unrhyw un* gael mynediad at y data a gedwir yn y CAH Rhanbarthol. Mae'n ffynhonnell o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae'r prif fath o ddefnyddiwr yn syrthio i'r categorïau a ganlyn:

- **Personél yr Ymddiriedolaeth** – mae'r CAH yn cynnal gwaith yr Ymddiriedolaeth ac yn rhoi'r sylfaen ar gyfer cyngor a roddir gan yr Adain Guradurol at ddibenion rheoli datblygu a rheoli treftadaeth. Fe'i defnyddir hefyd gan Adain Contractau'r Ymddiriedolaeth er mwyn llywio'r prosiectau y maent yn eu gwneud yng ngogledd-orllewin Cymru.
- **Ymholwyr Masnachol** - Mae gofyn i gontractwyr a datblygwyr masnachol gael mynediad hefyd at y wybodaeth a gedwir gan y CAH er mwyn ymchwilio i'w prosiectau. Fel arfer codir ar gontractwr a gaiff arian preifat i wneud y cyfryw waith am yr amser a gymerir i wasanaethu ymholiad, a hynny ar sail adennill costau.
- **Cyrff Lleol a Chenedlaethol** – Mae gan sefydliadau archaeolegol ac amgylcheddol eraill hefyd fynediad at ddata CAH ac yn eu plith mae Cadw, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymddiriedolaethau Archaeolegol eraill. Mae Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn eu lle gyda'r awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru i roi gwybodaeth iddynt.
- **Ymchwilwyr Academaidd** - mae'r CAH yn adnodd defnyddiol ar gyfer ymchwilwyr academaidd (athrawon, darlithwyr, myfyrwyr, cymrodorion ymchwil ôl-raddedig ac ati) ar gyfer prosiectau ymchwil a ariennir yn allanol (e.e. gwaith a ariennir gan Gyngor

Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau) neu brosiectau unigol megis gwaith cwrs, traethodau neu draethodau hir. Gellid codi tâl am yr amser a gymerir i wasanaethu ymholiad ar gyfer prosiect a ariennir, a hynny ar sail adennill costau.

- **Ymholwyr Cyhoeddus** - Defnyddir y CAH yn rheolaidd gan ystod eang o gyrff allanol, cymunedau ac unigolion i lywio'u gwaith ymchwil, gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith neu ddiddordebau cymunedol ac mae'r canlyniadau hyn i gyd yn cael eu bwydo'n ôl i'r CAH. Mae'r cyhoedd yn cyfrannu at wella'r CAH trwy gyfrannu gwybodaeth am safleoedd a darganfyddiadau. Caiff mynediad cyhoeddus i gasgliadau'r CAH (ffisegol a digidol) ei gynnal drwy gymorth grant i Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent gan Cadw ac felly, mae'n rhad ac am ddim i'r holl ymholwyr anfasnachol. Mae gwybodaeth graidd o'r cofnod digido ar gael yn rhad ac am ddim at ddibenion anfasnachol trwy wefan Archwilio - www.archwilio.org.uk <http://www.archwilio.org.uk> - a'r ap symudol Archwilio.

Nodir y cyfyngiadau a'r costau yn *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol Rhanbarthol Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru: Polisi Mynediad ac Adennill Costau*¹ ac yn *Polisi Ffioedd Adennill Costau*². Oni chaiff y polisïau hyn eu parchu byddir yn gwrthod mynediad yn y dyfodol.

1.5. Sut i gael Mynediad at y Cofnod

Mae modd i'r cyhoedd gael mynediad at wybodaeth CAH trwy *Archwilio*, CAH ar lein Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru, www.archwilio.org.uk. Mae *Archwilio* yn galluogi defnyddwyr i gynnal eu chwiliadau eu hunain o'r cofnod un ai'n ddaearyddol neu drwy ymchwiliad testun. Bydd rhaglen ffôn symudol ar gyfer Android ar gael yn fuan trwy'r Siop Apiau. Fodd bynnag at ddefnydd anfasnachol yn unig y mae'r data hwn yn addas.

Bydd angen i ddefnyddwyr gysylltu â'r CAH yn uniongyrchol ar gyfer ymholiadau masnachol, ymholiadau cymhleth mawr neu am ragor o wybodaeth am gofnodion a welwyd trwy *Archwilio*. Mae hyn i sicrhau y gallant gael mynediad at y wybodaeth fwyaf cyfredol a chaniatáu troi at adnoddau ategol nad ydynt yn ddigidol. Ar hyn o bryd, rheolir mynediad ffurfiol at wybodaeth CAH trwy gwblhau ffurflen ymholiadau CAH³ a derbyn telerau ac amodau defnyddio ar gyfer y data. Mae Polisi Mynediad a Chodi Tâl Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru'n gosod allan pa fathau o wybodaeth sydd ar gael gan y CAH, beth y gellid ei ddal yn ôl a'r rheswm dros ddal gwybodaeth yn ôl. Unwaith y derbynnir ffurflen ymholiadau CAH wedi'i chwblhau, bydd y person cyfrifol yn anfon crynodeb o wybodaeth CAH trwy'r post neu e-bost. Fodd bynnag, caiff ymholwyr eu hannog i ymweld â'r CAH gan y cedwir gwybodaeth ychwanegol sylweddol yn ein cofnodion papur. Mae croeso i rywun ymweld â CAH ond gofynnwn i chi wneud apwyntiad **ymlaen llaw** er mwyn sicrhau fod staff CAH ar gael i'ch cynorthwyo.

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent Cyf wedi ymrwmo i ddatblygu hygyrchedd y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol ac mae'n parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r Ymddiriedolaethau Archaeolegol eraill yng Nghymru yng nghyswllt datblygu *Archwilio* a chynlluniau eraill.

¹ Cynhwyswch y ddolen

² Cynhwyswch y ddolen

³ Cynhwyswch y ddolen

2. Safonau a Chyfleusterau'r Gwasanaeth

2.1. Ymrwymiad i Ddefnyddwyr

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent Cyd wedi ymrwymo i roi gwasanaeth o safon uchel. Gall holl ymholwyr CAH ddisgwyl y safonau a ganlyn o wasanaeth:

- Prosesir yr holl ymholiadau cyn gynted â bo modd a'n nod yw ymateb i'r holl ymholiadau anfasnachol o fewn 15 diwrnod gwaith. Mae amseroedd ymateb i ymholiadau fel a ganlyn: Chwiliad blaenoriaethol – dau ddiwrnod gwaith (os oes staff ar gael), chwiliad nad yw'n flaenoriaethol – pump i saith diwrnod gwaith.
- Bydd ymchwiliad CAH safonol yn golygu chwilio nifer o setiau data a nodir ar y Profforma Ymholiadau CAH
- Lle bo modd, darperir data ar y ffurf a amlinellir gan yr ymholwr.
- Ein nod yw darparu cyfleusterau digonol ar gyfer unrhyw un sy'n defnyddio CAH.
- Darparwn fan gweithio cyfforddus i ymwelwyr â'r CAH.
- Rydym wedi ymrwymo i wella ein gwasanaeth i gwrdd â disgwyliadau'r defnyddiwr.
- Mae gwasanaethau ar gael yn ddwyieithog i ddefnyddwyr.

2.2. Oriau Agor a Chysylltu

Mae'r CAH yn agored i ymwelwyr yn ddyddiol (trwy apwyntiad yn unig) o ddydd Llun i ddydd Gwener 10.00am – 1.00pm a 2.00pm – 4.00pm. Dylai ymholwyr gysylltu â:

Y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent Cyf
Tŷ Heathfield
Heathfield
Abertawe
SA1 6EL

Rhif Ffôn (01792) 655208
Rhif Ffacs (01792) 474469
E-bost. her@ggat.org.uk

Cynhwyswch y Map

2.3. Mewngofnodi

Mae'n ofynnol i ymwelwyr â'r CAH fewngofnodi yn y dderbynfa. Am resymau diogelwch, rhaid gadael yr holl ymbaréls, bagiau cyffredin a bagiau dogfennau yn y dderbynfa ddiogel ac ni ddylid mynd â nhw i mewn i ystafelloedd Chwilio/Astudio CAH heb ganiatâd ymlaen llaw. Mae modd defnyddio camerâu digidol a chamerâu ffôn fel modd o gopiö gwybodaeth ond rhaid cael caniatâd ymlaen llaw i wneud hynny.

2.4. Cyfleusterau'r defnyddwyr

- Mae maes parcio gyda lle i ymwelwyr ar gael o flaen eiddo'r ymddiriedolaeth.
- Mae toiledau ar lawr gwaelod yr adeilad.

- Mae ystafell chwilio ac ynddi gyfleusterau TG ar gael i ddefnyddwyr uwch HER. Mae staff pwrpasol ar gael i ymholwyr sy'n anghyfarwydd â'r CAH i roi iddynt gyfarwyddiadau ac arweiniad.
- Mae cyfleusterau cynadledda ar gael ar gais
- Taflenni gwybodaeth yn rhad ac am ddim
- Mynediad dan oruchwyliaeth i Lyfrgell Gyfeirio CAH ac ynddi gasgliadau ar ystod o lyfrau a chyfnodolion archaeolegol lleol.
- Mae cyfleusterau argraffu a llungopïo ar gael.
- Mae gan swyddfeydd GGAT fynediad i'r anabl ac mae holl gyfleusterau CAH ar lawr gwaelod yr adeilad. Mae staff dynodedig hefyd wrth law i roi cefnogaeth a chymorth gyda mynediad. Yn anffodus, nid oes gan swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth doiledau ar gyfer yr anabl. Yn unol â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2004, mae GGAT wedi ymrwymo i roi mynediad i bawb a bydd yn gwneud addasiadau rhesymol i roi lefel gydradd o wasanaeth i'r holl ddefnyddwyr.

2.5. Hawlfraint

Rhaid i ddefnyddwyr y CAH lynu wrth yr holl gyfyngiadau hawlfraint a chyfreithiol eraill a allai fod yn berthnasol i wybodaeth a gedwir yn y cofnod. Gallai cofnodion ategol gynnwys deunydd y cedwir ei hawlfraint gan sefydliadau eraill. Mae Deddf Gwarchod Data 1998 hefyd yn rheoli gwaith rhyddhau mathau penodol o wybodaeth.

Gellir defnyddio camerâu digidol neu ffonau symudol gyda dyfeisiau delweddu wedi'u ffitio iddynt fel modd o gopïo gwybodaeth, fodd bynnag, rhaid cael caniatâd ymlaen llaw a rhaid defnyddio'r gydnabyddiaeth hawlfraint briodol.

Bydd gofyn i ddefnyddwyr gydnabod y defnydd a wnaed o wybodaeth CAH mewn unrhyw ddogfen neu adroddiad a gyhoeddir. Dylid defnyddio'r datganiad a ganlyn ar gyfer gwaith yn cynnwys data CAH:

“© Yn tarddu o wybodaeth a gedwir gan Ymddiriedolaeth Elusennol CAH GGAT, Hawl Cronfa Ddata.”

3. Polisi Mynediad a Chodi Tâl

Mae Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru wedi cynhyrchu *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol Rhanbarthol Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru: Polisi Mynediad ac Adennill Costau*. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r math o wybodaeth sydd ar gael o CAH, beth y gellid ei ddal yn ôl a'r rhesymau dros hyn. Nod y polisi yw darparu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y defnyddiwr fel bod modd iddynt gael mynediad at y CAH.

Mewn cydweithrediad â hyn, rhaid i ymholwyr ddarllen amodau'r mynediad a amlinellir ar ffurflen ymholiadau CAH a chytuno iddynt cyn y caiff ymholiad ei brosesu.

Ymdrinnir â'r holl ymholiadau anfasnachol yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, byddir yn adennill costau rhesymol pan fyddir yn ymdrin ag ymholiadau o natur fasnachol. Codir y tâl hwn i gwrdd ag amser staff yn cynnal ac yn prosesu'r ymholiad fel y gofynnwyd ar ffurflen Ymholiadau ac anfonebau cysylltiedig CAH. Amlinella polisi *Ffioedd Adennill Costau* CAH GGAT y costau gwasanaeth a'r ffioedd cyfleusterau a fydd yn berthnasol i ymholiad CAH. Byddir yn adennill costau a gyfyd yn sgil defnyddio cyfleusterau GGAT (llungopïau a deunyddiau copi) ar gyfer pob ymholiad.

Ni fyddir yn codi am fynediad at y cofnod ar lein, *Archwilio*, ond rhaid pwysleisio nad yw'r data ar-lein yn addas i'w ddefnyddio mewn unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â masnach neu ddatblygu.


4. Gwaith Ymchwilio i Broffiliau Defnyddwyr a Boddhad â'r Gwasanaeth

Mae'n ofynnol i Gofnod Amgylchedd Hanesyddol Morgannwg-Gwent gadw cofnod o Ddefnyddwyr y CAH. Gwneir hyn trwy ddefnyddio data-bas, a lunir dan delerau Deddf Gwarchod Data 1998. Caiff y data hwn ei gofnodi yn Nata-bas Ymholiadau CAH y mae modd cael ato'n hawdd i roi dadansoddiad ystadegol cyflym a rheolaidd o'n gwasanaeth.

Yn y tabl isod dangosir cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau CAH a'r ymweliadau â'r Ymddiriedolaeth dros y ddegawd diwethaf.

Blwyddyn Ariannol	Cyfanswm yr Ymgynghoriadau	Ymweliadau â'r Ymddiriedolaeth
2010-2011	236	13
2011-2012	252	19
2012-2013	147	9
2013-2014	212	21
2014-2015	232	9
2015-2016	203	17

Yn y graff isod dangosir nifer yr ymweliadau â gwefan *Archwilio* er 2011.



4.1. Pwy yw'r prif grwpiau sy'n defnyddio CAH?

Myfyrwyr
Ymchwilwyr

Y cyhoedd
Ffermwyr
Haneswyr / archaeolegwyr lleol
Awdurdodau Lleol
Cwmnïau gwasanaethau cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Datblygwyr
Contractwyr

4.2. Pa fath o wybodaeth a gofnodir yn nata-bas Ymholiadau CAH?

Neilltuir i bob ymholwr rif cyfeirnod CAH unigryw a ddefnyddir i ymdrin â'i gais am wybodaeth; dyfynnir y rhif hwn mewn unrhyw ohebiaeth bellach. Cofnodir manylion eraill megis enw, cwmni, dyddiad derbyn, dyddiad ymateb a natur yr ymholiad yn y data-bas. Cedwir yr holl wybodaeth sydd yng nghofnod ymholiadau CAH (a'r cofnodion papur cysylltiedig) yn unol â Deddf Gwarchod Data 1998. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i fonitro'r gwasanaethau a gynigir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent yn unig. Ni chaiff ei rhoi i unrhyw gorff neu asiantaeth allanol.

4.3. Sut ceir adborth gan amryfal ddefnyddwyr CAH?

Mae GGAT wedi ymrwmo i gyflawni gwasanaeth a gweithrediad o safon ragorol. Fodd bynnag, er mwyn nodi ein cryfderau a'n gwendidau ac asesu pa gamau y mae angen eu cymryd i roi lefel fwy effeithiol o wasanaeth, mae adborth yn bwysig. Bob chwarter anfonir arolwg o Adborth Defnyddwyr Cofnod Amgylchedd Hanesyddol at bob grŵp sy'n defnyddio'r CAH, yn cynnwys ymholiadau o bell ac ymwelwyr â'r Ymddiriedolaeth. At hyn, mae'r wefan *Archwilio* yn rhoi cyfle i bobl roi sylwadau ac adborth trwy ei blog ar lein <http://ggather.wordpress.com/>.

Ceir hefyd adborth am wasanaethau curadurol trwy amryfal weithgareddau allgymorth treftadaeth trwy gwblhau ffurflenni adborth. Mae'r rhain yn cynnwys asesiad o'r gwasanaethau a gynigir gan y CAH tra'u bod yn arddangos mewn digwyddiadau o'r fath.

4.4. Sut caiff cwynion am y gwasanaeth CAH eu cofrestru?

Amlinellir Gweithdrefnau Cwynion yn *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol Rhanbarthol Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru: Polisi Mynediad ac Adennill Costau*. Dylid cyfeirio unrhyw gwynion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth CAH at:

Pwyllgor Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru
d/o Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys
41 Stryd Lydan
Y Trallwng
Powys
SY22 7RR

Dylid cyfeirio unrhyw gwynion sy'n ymwneud â GGAT at:
Y Prif Weithredwr
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent Cyf
Tŷ Heathfield
Heathfield
Abertawe
SA1 6EL